



# Cytundeb priodas Edward ac Isabella, 20 Mai 1303

## 1. Ffacsimiliau o'r ddogfen

Dyma'r llun (cyfeirnod RISW DOC 5/3) a dynnwyd gan H. Chapman yn y dyddiau pan oedd yn bosibl i ddarllen y ddogfen o hyd. Fe'i defnyddiwyd i wneud y trawsgrifiad sy'n dilyn isod.





Dyma'r ddogfen heddiw (cyfeirnod RISW DN 32). Wedi'i dirywio gan flynyddoedd a dreuliwyd mewn amodau anaddas, mae'n drist i'w weld.

Mae'r tair sêl isod wedi goroesi'n well ac wedi ymateb yn dda i gadwraeth. Ar y chwith mae sêl frenhinol Ffrainc, yn y canol mae sêl larll Evreux ac ar y dde mae sêl frenhinol Lloegr.



## 2. Trawsgrifiad a chyfieithiad

### Y testun Ffrangeg gwreiddiol:

A Touz ceus [qui ce]s presentes lettres verront et orront Looys Filz du Roi [de] France Cuens de Evreux Robert de Burgoigne et Jehan de Bretaigne duks et Pierre Sires de Chamblie Chevalir et Chambellan notre Seigneur le Roi de France messages et procureurs du dit roi a ce establiz Salut.

Nous fesons savoir que comme il ait este prononcie par le Pape comme par privee personne et comme Benoit Gaytan par la vertu du compromis [fait en] li que mariage se face de monsire Edouard filz du Roi dengleterre et de madame ysabel fille le Roi de France notre Seigneur devant dit [si tost] comme elle vendra en aage de faire mariage dedenz les quatre mois apres ce qu il en ara este requis depar notre dit Seigneur le Roi o douaire de dis et wit mile libres de tournois petiz de rente sur certainnes condicions [et] peinnes mises et ajostees en la pronunciation desus dite et es lettres faites sur ce.

Et quant au dit mariage il ait oste les epeschementz qui i estoient ou poaint estre par raison de lignage et ait dispense par auctorite dapostole et empres la dite pronunciation aucuns traitiez et acorzM aient este euz et faiz a mostereul entre les messages et procureurs des diz Rois condicions et peines mises et ajostees quant a la fermete du dit mariage si come elles sont plus pleinement contennes es lettres faites sur ce.

Nous la pronunciation les traitiez et les acorzM desus diz et chascun diceus sur les peines et sur les condicions de[sus] dites comme messages et procureurs du dit notre Seigneur le Roi en nom de li pour li pour ses hoirs et pour ses successeurs et pour madame ysabel desus dite Ratefions agreons et approvons et prometons en nom du dit notre Seigneur le Roi a les tenir garder et accomplit fermement sur les peines desus dites

Item les diz Contes de Savoie et de Nicole comme messages et procureurs du dit Monsire Edouard filz du dit Roi dengleterre pour li et in nom de li fiancerent presentement en la presence du dit notre Seigneur le roi de France et de haute dame madam Jehenne par celle meime grace Reine de France mere de la dite madame ysabel icelle madame

### Cyfieithiad:

I bawb a welant neu a glywant y llythyrau presennol hyn, Louis, mab Brenin Ffrainc, larll Evreux, y dugiaid Robert o Fwrgwyn a Jean o Lydaw a Pierre Sires de Chamblie, marchog a siambrlen ein harglwydd, brenin Ffrainc, negeswyr ac asiantiaid y brenin dyweddedig a benodwyd i'r pwrrpas hwn, gyfarchion.

Yr ydym yn hysbysu, yn gymaint ag y mae wedi'i ddatgan gan y Pab fel person preifat ac fel Benoit Gaytan<sup>1</sup>, drwy rinwedd yr addewid a wnaed ynddi, y bydd priodas rhwng yr arglwydd Edward, mab brenin Lloegr a'r arglwyddes Isabella, merch brenin Ffrainc ein harglwydd dyweddedig, a chyn gynted ag y delo hi i oed priodi, ymhen pedwar mis wedi hynny, gofynnir gan ein harglwydd y brenin dyweddedig agwedi o ddeunaw mil o *livres tournois*<sup>2</sup> bach a bennwyd ac a draethwyd yn y datganiad a grybwyllic uchod, a'r llythyrau a wnaed am hyn.

Ac o ran y briodas ddyweddedig, y mae wedi dileu yr atalion a oedd yno neu a allasai fod yno, oherwydd achau, ac wedi gweithredu trwy awdurdod apostolaidd; ac ar ôl y datganiad dyweddedig, cafwyd a gwnaethpwyd rai contractau a chytundebau ym Montreuil rhwng negeswyr ac asiantiaid y brenhinoedd dyweddedig, gydag amodau a chosbau wedi'u gosod a'u hychwanegu er mwyn sicrhau'r briodas ddyweddedig, fel y'u cynhwysir yn llawnach yn y llythyrau a wnaed am hyn.

Yr ydym yn cadarnhau, yn cytuno ar ac yn cymeradwyo'r datganiad, y contractau, a'r cytundebau dyweddedig, a phob un ohonynt, ar y cosbau a'r amodau, fel negeseuwyr ac asiantiaid ein harglwydd, y brenin dyweddedig, yn ei enw ef, dros ei etifeddion a'i olynwyr, a thros yr arglwyddes Isabella rhagddyweddedig; ac addawn yn enw ein harglwydd y Brenin dyweddedig i'w cadw, eu gwarchod a'u cyflawni'n gadarn yn amodol ar y cosbau a grybwyllic uchod.

Ymhellach, mae ieirll dyweddedig Savoy a Lincoln, fel negeseuwyr a phrocuraduron y dyweddedig arglwydd Edward, mab y brenin Lloegr, drosodd ac yn ei enw ef, ym mhresenoldeb ein dyweddedig arglwydd, brenin Ffrainc, ac ei huchelder yr arglwyddes Joan, brenhines Ffrainc drwy'r un gras, mam y foneddiges Isabella ddyweddedig, yn dyweddio'r un foneddiges Isabella, sy'n

ysabel present et receuant [et] elle presenz ses diz parenz et les diz procureurs recevanz fianca le dit Monsire Edouard en la main de honor[able] pere Gile par celle meime grace Arcevesque de Narbon sur les peines et sur les condicions desus dites.

En tesmogn de laquelle chose nous avons fait sceller ces lettres de noz seaus. Donne a Paris la vintieme jour de mai En lan de grace mil Trois cenz et Trois.

bresennol ac yn ei derbyn; ac y mae hithau, yn bresennol, a'i rhieni a'r procuraduron dyweddedig yn derbyn, yn dyweddio'r arglwydd Edward dyweddedig, trwy law y tad anrhyydeddus Giles archesgob Narbonne drwy'r un gras hwnnw, yn amodol ar y cosbau a'r amodau a roddir uchod.

Yn dystiolaeth o'r mater hwn, yr ydym wedi gwneud y llythyrau hyn sydd wedi'u selio â'n seliau. Rhoddwyd ym Mharis ar yr ugeinfed dydd o Fai yn y flwyddyn o ras mil tri chant a thri.

## Nodiadau

1. Pan seliwyd y ddogfen hon, roedd Boniface VIII yn Bab. Benedetto Caetani oedd ei enw gwreiddiol a Benoit Gaytan yw'r fersiwn Ffrengig ohono.
2. Roedd y *livre tournois*, neu bunt Tours, yn un o sawl uned o arian cyfred a ddefnyddiwyd yn Ffrainc ganoloesol, gan gymryd ei henw o dref Tours lle cafodd ei bathu.

## Llyfryddiaeth

Mae'r canlynol i gyd ar gael arlein:

- Gary Gregor, 'Purloined from Swansea Castle' yn [Minerva, cyfrol. 5 \(1997\)](#), t. 2
- William Rees, 'Gower and the March of Wales' yn [Archaeologia Cambrensis, cyfrol CX \(1961\)](#), yn arbennig tudalennau 24-29
- R. W. B., 'Marriage contract of King Edward II' yn [Archaeologia Cambrensis, Pumed Gyfres, cyfrol IV, rhif XIII \(Ionawr 1887\)](#), t. 53
- R. Capper, 'Swansea Castle' yn [Archaeologia Cambrensis, Pumed Gyfres, cyfrol III, rhif XII \(Hydref 1886\)](#), t. 302
- George Grant Francis, 'Original contract of affiance between Edward Prince of Wales and Isabella of France' yn [Archaeologia Cambrensis, cyfrol X \(1848\)](#), t. 150
- 'Sponsalia inter Edvardum filium regis & Isabellam regis Franciae filliam' yn Thomas Rymer, [Fœdera, conventiones, literæ, et cuiuscunque generis acta](#) (Llundain, 1705), cyfrol 2, t. 928.



Trawsgrifiad a chyfieithiad gan Andrew Dulley  
© Hawlfraint Gwasanaeth Archifau Gorllewin Morgannwg, 2022